

Gwasanaethau SMG Polisi Preifatrwydd Byd Eang

Dyddiad dod i rym: Mawrth 2018

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn berthnasol i brosesu SMG o Ddata Personol a gesglir trwy'r wefan hon a gwefannau eraill, gwasanaethau a rhaglenni yn cynnwys rhaglenni symudol, ble mae'r Polisi Preifatrwydd hwn wedi ei gyhoeddi, gysylltu neu gyfeirio ato (yn gyfunol, y "**Gwasanaethau SMG**"). Mae "Data Personol" yn wybodaeth yn ymwneud â pherson naturiol adnabyddadwy neu y gellir ei adnabod. Mae Gwasanaethau SMG yn eiddo i ac/neu wedi eu gweithredu gan Service Management Group, LLC, Service Management Group Limited, Service Management Group GK, a'u cwmnïau cyswllt perthnasol (yn gyfunol, "**SMG**," "ni" neu "ninnau"). Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn delio â sut fyddwn ni'n casglu a phrosesu eich Data Personol.

ADOLYGWCH YR HYSBYSIAD PREIFATRUYDD HWN YN OFALUS. Bydd eich Data Personol yn cael ei gasglu a phrosesu fel y disgrifiwyd yn y Polisi Preifatrwydd hwn.

Os nad ydych wedi gwneud hynny, adolygwch Amodau Gwasanaeth SMG, sy'n cyflwyno'r termau yn llywodraethu defnydd o'n gwefannau, rhaglenni, gwasanaethau a rhaglenni symudol ("Gwasanaethau SMG").

OS NAD YDYCH CHI'N CYTUNO GYDAG UNRHYW RAN O'R POLISI PREIFATRUYDD HWN NEU EIN HAMODAU GWASANAETH, PEIDIWCH Â DEFNYDDIO UNRHYW UN O WASANAETHAU SMG.

- 1. NEWIDIADAU I'R POLISI PREIFATRUYDD**
- 2. CATEGORIAU O DDATA PERSONOL A BROSESIR GAN SMG**
- 3. SUT YDYN NI'N CASGLU GWYBODAETH A DIBENION PROSESU**
- 4. SEILIAU CYFREITHIOL DROS BROSESU**
- 5. SUT YDYN NI'N DEFNYDDIO A RHANNU DATA PERSONOL**
- 6. CADW A GWAREDU AR DDATA PERSONOL**
- 7. EICH HAWLIAU A DEWISIADAU PARTHED PROSESU DATA PERSONOL**
- 8. GOBLYGIADAU PEIDIO DARPARU DATA PERSONOL**
- 9. POLISI BRIWSION**
- 10. RHEOLI GWYBODAETH EICH CYFRIF**
- 11. PREIFATRUYDD PLANT**
- 12. DOLENNI I WASANAETHAU TRYDYDD PARTI**
- 13. DIOGELWCH GWYBODAETH**
- 14. YSTYRIAETHAU DAEARYDDOL A THROSGWLWYDDIADAU AR DRAWS FFINIAU O DDATA PERSONOL**
- 15. SUT I GYSYLLTU Â NI**
- 16. RHEOLYDD DATA A SWYDDOG DIOGELU DATA**

1. NEWIDIADAU I'R POLISI PREIFATRUYDD HWN

Byddwn yn diweddarau'r Polisi Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd pan fyddwn yn gwneud newidiadau yn effeithio ar y Polisi Preifatrwydd, megis ychwanegu gwasanaethau a rhaglenni newydd, gwella ein gwasanaethau, a delio â newidiadau mewn technolegau a chyfreithiau. Mae Dyddiad dod i rym y Polisi Preifatrwydd hwn, a nodir ar frig y dudalen y we hon, yn adlewyrchu'r dyddiad pan ddiweddarwyd y Polisi Preifatrwydd ddiwethaf. Bydd SMG yn eich hysbysu os bydd y newidiadau hyn yn faterol, a ble fo'n ofynnol dan y gyfraith berthnasol, byddwn yn cael eich caniatâd. Fe ddarperir yr hysbysiad hwn trwy roi hysbysiad o'r newidiadau ar ein gwefan neu trwy ein rhaglenni.

2. CATEGORïAU O DDATA PERSONOL A BROSESIR GAN SMG

Mae SMG yn cyflawni ymchwil i'r farchnad ar ran cwmnïau sydd eisïau cael gwell dealltwriaeth o ddewisiadau cwsmerïaid ynghylch eu nwyddau a gwasanaethau. Y cwmnïau hyn yw ein "**Cleientïaid**." Rydym yn cyflawni ein harolygon ein hunain ar ran ein Cleientïaid (yn gyfunol, "**Arolygon**") ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i darddu mewnwelediad defnyddwyr, megis ble, pryd a pha mor aml mae defnyddwyr yn ymweld â lleoliadau manwerthu a'u profiadau yn ystod yr ymweliadau. Pan fyddwch yn cwblhau arolwg neu'n defnyddio Gwasanaethau SMG, rydym yn casglu Data Personol yr ydych yn ei darparu'n wirfoddol i ni.

Mae'r Data Personol a gesglir gennym yn cynnwys: (1) data cysylltu (fel cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, a chyflogwr); (2) data demograffig (fel rhyw, dyddiad geni, a chod post); (3) eich ymatebion mewn arolygon i'r fath raddau ag y mae'r wybodaeth yn datgelu pwy ydych chi fel rhywun y gellir ei adnabod yn bersonol; a (4) gwybodaeth yn ymwneud â'ch defnydd o Wasanaethau SMG ("Data Defnydd").

Mae Data Defnydd a gesglir gennym yn cynnwys: (1) cyfeiriad IP; (2) gweinydd parth; (3) math o ddyfais (neu ddyfeisiau) a ddefnyddiwyd i gael mynediad at y Gwasanaethau; (4) ystadegau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r rhyngweithio rhwng eich porwr neu ddyfais, fel model dyfais cludydd/rhwydwaith, gwybodaeth oes batri i optimeiddio eich samplu lleoliad yn seiliedig ar yr oes batri sy'n weddill, ac ystadegau defnydd sylfaenol am eich dyfais; (5) data GPS neu geoleoliad arall amser real pan fyddwch chi'n caniatáu i ni dderbyn gwybodaeth trwy'r gosodiadau lleoliad (neu debyg) ar eich dyfais; (6) gwefan gyfeirio neu ffynhonnell arall ble cawsoch fynediad at y Gwasanaethau. Pan fyddwch yn llenwi Arolygon ar-lein, byddwn yn casglu nifer o briodweddau unigryw am eich dyfais i ddibenion casglu ac atal twyll.

3. SUT YDYN NI'N CASGLU GWYBODAETH A DIBENION PROSESU

Rydym yn casglu a phrosesu gwybodaeth a ddarperir gennych i ni ac o'ch defnydd o Wasanaethau SMG. Bydd yr wybodaeth a gasglwn a sut fyddwn yn ei phrosesu yn ddibynnol ar sut gewch chi fynediad at a'ch defnydd o Wasanaethau SMG.

Gennych chi. Byddwn yn casglu gwybodaeth gennych chi pan fyddwch yn:

- **Cwblhau Arolwg:** Byddwn yn casglu'r wybodaeth a gyflwynir gennych mewn ymatebion Arolwg ynghylch eich profiadau a dewisiadau defnyddiwr. Efallai y byddwn yn cyfuno gwybodaeth a dderbyniwyd yn eich ymatebion Arolwg gyda gwybodaeth a gawn gan ein Cleientïaid, fel gwybodaeth am eich ymwneud yn rhaglenni teyrngarwch ein Cleientïaid, i gael gwell dealltwriaeth o'ch profiadau defnyddiwr. Efallai y byddwn hefyd yn cyfuno gwybodaeth a dderbyniwyd yn eich ymatebion Arolwg gyda gwybodaeth a dderbyniwyd mewn ymatebion Arolwg defnyddwyr eraill i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau defnyddwyr yn gyffredinol. Pan fyddwch yn cwblhau Arolwg, bydd yr wybodaeth y dewiswch ddarparu i ni yn cael ei defnyddio mewn adroddiadau a dadansoddiadau eraill o brofiadau a dewisiadau defnyddwyr ar gyfer ein Cleientïaid neu unrhyw ddefnydd arall y byddwn yn ei datgelu i chi pan gesglir yr wybodaeth. Os nad ydych eisïau i ni ddefnyddio eich gwybodaeth mewn adroddiadau, dadansoddiadau neu mewn unrhyw ffordd arall a ddatgelwyd i chi, gallwch ddewis peidio cwblhau Arolwg.
- **Defnyddio Gwasanaethau SMG.** Rydym yn casglu Data Defnydd yn awtomatig pan fyddwch yn rhyngweithio gyda Gwasanaethau SMG trwy ddefnyddio briwsion ac offer casglu data eraill. Rydym yn defnyddio'r Data Defnydd yma i hwyluso cyfathrebu rhwng eich dyfais a'n systemau ni, i gynnal Arolygon, sicrhau cywirdeb Arolygon, canfod ac atal twyll, cyflawni ymchwil i'r farchnad, gweinyddu a gwella ein gwefan a rhaglenni, a dadansoddi defnydd o a gwella a hybu gwasanaethau SMG. I gael gwybod

mwy am sut a pham ydyn ni'n defnyddio briwsion ac offer casglu data tebyg, gweler yr adran "Polisi Briwsion" yn y Polisi Preifatrwydd hwn.

- **Cyflwyno eich Data Personol tra'n defnyddio Gwasanaethau SMG:** Pan fyddwch chi'n cyflwyno eich Data Personol mewn perthynas â defnyddio Gwasanaethau SMG, fel cysylltu â ni am gymorth neu wybodaeth, neu ddarparu sylwadau ynghylch eich profiadau gydag un o'n Cleientiaid, rydym yn casglu a dadansoddi'r wybodaeth a gyflwynwch. Pan fyddwch yn darparu sylwadau i SMG, mae'r wybodaeth a ddarperir gennych yn cyfrannu i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'n Cleientiaid ac i'n hymchwil i'r farchnad yn gyffredinol. Gyda'ch caniatâd chi, bydd eich sylwadau yn cael eu cyhoeddi ar [TrumpetRatings.com](https://www.trumpetratings.com) ac/neu ar wefannau ein Cleientiaid. Pan gyhoeddir gwybodaeth o'r fath mewn fforwm gyhoeddus, megis [TrumpetRatings.com](https://www.trumpetratings.com) neu wefannau eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd, bydd yr wybodaeth yn dod yn wybodaeth gyhoeddus. Gall beth bynnag ydych chi wedi ei ysgrifennu gael ei weld ac/neu ei gasglu gan drydydd partion a'i ddefnyddio gan eraill mewn ffyrdd na allwn ni reoli na rhagweld.
- **Cyrchu Gwasanaethau SMG yn defnyddio Manylion Cyfryngau Cymdeithasol:** Gall SMG gynnig cyfle i chi ddefnyddio gwasanaethau rhwydweithio cymdeithasol (yn gyfunol, "**Cyfryngau Cymdeithasol**") i gael mynediad at rai Gwasanaethau SMG. Pan fyddwch yn dewis cyrchu Gwasanaethau SMG trwy ddefnyddio manylion Cyfryngau Cymdeithasol, gall SMG, yn ddibynnol ar eich gosodiadau preifatrwydd gael mynediad at yr holl wybodaeth yr ydych chi wedi ei darparu i'r llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol, fel eich enw, cyfeiriad e-bost, llun proffil, postiodau, sylwadau a gwybodaeth arall yn gysylltiedig â'ch cyfrif Cyfryngau Cymdeithasol. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer unrhyw ddibenion a ddisgrifir yn y Polisi Preifatrwydd hwn ac ar gyfer unrhyw ddibenion atodol y cawsoch wybod amdanynt ar yr adeg y casglwyd yr wybodaeth. Os nad ydych chi eisiau i'ch gwybodaeth Cyfryngau Cymdeithasol gael ei rhannu gydag SMG gan ddarparwr Cyfryngau Cymdeithasol, ni ddylech ddefnyddio eich cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol i gael mynediad at Wasanaethau SMG.

Gan ein Cleientiaid. Ar gyfer rhai cynnyrch a gwasanaethau, efallai y bydd ein Cleientiaid yn anfon gwybodaeth atom ynghylch eich rhyngweithiadau gyda'u brandiau, cynnyrch a gwasanaethau, a allai gynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw raglenni teyrngarwch yr ydych chi wedi cofrestru ar eu cyfer a gwybodaeth am eich trafodion gyda'n Cleientiaid. Gallwn gyfuno'r wybodaeth hon gyda gwybodaeth arall a gesglir gennym i hybu'r ymchwil i'r farchnad a gyflawnwn a'r gwasanaethau yr ydym yn darparu i'n Cleientiaid.

4. SEILIAU CYFREITHIOL DROS BROSESU

- 4.1. Rydym yn prosesu eich data cyswllt, data demograffig, ac ymatebion i'r Arolygon pan fyddwch yn cwblhau Arolwg neu'n defnyddio Gwasanaethau SMG. Rydym yn prosesu Data Personol o'r fath yn seiliedig ar ddiddordebau cyfreithlon ein Cleientiaid i gasglu adborth gan eu cwsmeriaid i'w helpu i wella eu cynnyrch a gwasanaethau er lles eu cwsmeriaid a busnesau, ac yn seiliedig ar ddiddordebau cyfreithlon SMG yn hybu cynnyrch, gwasanaethau ac ymchwil i'r farchnad SMG ac mewn ymateb i geisiadau defnyddwyr am gymorth neu wybodaeth.
- 4.2. Rydym yn prosesu eich Data Defnydd pan fyddwch yn cwblhau Arolwg neu'n defnyddio Gwasanaethau SMG. Rydym yn prosesu'r Data Defnydd hwn yn seiliedig ar eich dewis i barhau yn yr Arolwg, gan gadarnhau eich cydsyniad i ddefnydd SMG o friwsion a thechnolegau casglu data eraill. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl trwy gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data trwy e-bost ar privacyofficer@smg.com neu trwy ysgrifennu at Data Protection Officer, Service Management Group, LLC, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108.

- 4.3. Gallwn hefyd brosesu gwybodaeth yr ydych wedi ei darparu i lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol, yn ddibynol ar eich gosodiadau preifatrwydd, pan fyddwch chi'n defnyddio gwasanaethau rhwydweithio cymdeithasol ar y cyd â gwasanaethau SMG. Rydym yn prosesu gwybodaeth o'r fath yn seiliedig ar eich cydsyniad, yr ydych yn ei roi yn eich gosodiadau preifatrwydd i'r gwasanaethau rhwydweithio cymdeithasol. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl trwy newid eich gosodiadau preifatrwydd fel nad ydych bellach yn cynnig mynediad i ni at eich data Cyfryngau Cymdeithasol.
- 4.4. Rydym yn prosesu gwybodaeth a dderbyniwn gan ein Cleientiaid parthed eich rhyngweithiadau gyda'u brandiau, cynnyrch a gwasanaethau. Rydym yn prosesu gwybodaeth o'r fath yn seiliedig ar ddiddordeb cyfreithlon SMG a Chleientiaid SMG, yn cynnwys gwella a hybu cynnyrch a gwasanaethau SMG a'n Cleientiaid a hybu ymchwil i'r farchnad SMG.

5. SUT YDYN NI'N DEFNYDDIO A RHANNU DATA PERSONOL

Mae sut fyddwn ni'n defnyddio a rhannu gwybodaeth a gasglwn neu yr ydych chi'n ei darparu i ni yn ddibynol ar sut ydych chi'n defnyddio neu'n cyrchu Gwasanaethau SMG. Ble fo'n ofynnol dan y gyfraith, bydd SMG yn cydymffurfio gyda'ch cais i ni beidio darparu data personol i drydydd partïon.

- **Cyfathrebu â chi.** Fe ddefnyddir eich Data Personol, yn ôl yr angen, i reoli ein perthynas ac i gyfathrebu gyda chi trwy'r post, ffôn, e-bost, hysbysiadau symudol a negeseuon testun SMS. Oni bai fod ymatebwr arolwg wedi gofyn yn benodol am gyfathrebu, ni fydd SMG yn cysylltu ag ymatebwr arolwg oni bai bod angen i wirio cywirdeb arolwg, i gyflawni Arolygon, i ddarparu gwobrau neu fuddion a enillwyd o ganlyniad i gwblhau arolwg, neu i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid. Er nad yw SMG yn defnyddio eich Data Personol i unrhyw ddibenion marchnata uniongyrchol, dylech adolygu Polisi Preifatrwydd y cleient yr ydym yn casglu eich Data Personol ar ei gyfer, i bennu os yw cleient o'r fath yn gwneud hynny. Efallai y byddwn yn rhannu eich Data Personol gyda darparwyr gwasanaeth sy'n ein cynorthwyo i reoli ein perthynas â chi.
- **Cyflawni Gwasanaeth ar eich Cais.** Gallwn ddefnyddio a rhannu eich Data Personol er mwyn cyflawni gwasanaethau ar eich cais neu swyddogaethau yr ydych chi'n eu hysgogi, megis pan fyddwch yn cyhoeddi gwybodaeth a deunyddiau ar fyrddau negesu, fforymau neu ar dudalennau Cyfryngau Cymdeithasol. Yn ogystal, pan fyddwch chi'n rhoi caniatâd i ni, gallwn ddatgelu eich Data Personol er mwyn eich adnabod i unrhyw un yr ydych yn anfon cyfathrebiadau atynt trwy Wasanaethau SMG. Hefyd, gallwn ddefnyddio a rhannu eich Data Personol gyda thrydydd partïon er mwyn darparu gwobrau a buddion llawn yr ydych wedi gofyn amdanynt a'u hennill trwy gwblhau Arolygon. Os byddwch yn dewis cymryd rhan mewn swîp neu hyrwyddiad arall, byddwn yn anfon eich gwybodaeth at weinyddwyr trydydd parti yr hyrwyddiadau hynny, er mwyn iddynt allu ateb eich cwestiynau neu gysylltu â chi ynghylch gwobr yr ydych wedi ennill neu faterion eraill yn ymwneud â'r hyrwyddiad.
- **Dadansoddi Defnydd a Gwella Gwasanaethau SMG.** Rydym yn defnyddio Data Personol a gesglir o friwsion ac offer casglu data eraill i ddadansoddi defnydd, canfod twyll a gwella perfformiad ar gyfer Gwasanaethau SMG. Efallai y byddwn yn defnyddio gwasanaethau dadansoddi gwefannau trydydd parti i ddadansoddi sut mae unigolion yn defnyddio Gwasanaethau SMG, yn cynnwys i gofnodi cliciau llygoden, symudiadau llygoden, gweithgaredd sgrolio a thestun y byddwch yn ei deipio mewn blychau testun rhydd. Rydym yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan y gwasanaethau trydydd parti hyn i'n helpu i ddeall yn well sut mae ein defnyddwyr yn canfod a defnyddio Gwasanaethau SMG, i hybu ein gwasanaethau, ac i wella eich profiad fel defnyddiwr.

- **Rhannu Data gyda Darparwyr Gwasanaethau Eraill.** Gallwn rannu eich gwybodaeth, yn cynnwys eich Data Personol gyda darparwyr gwasanaethau eraill a ddefnyddiwn i gyflawni'r swyddogaethau yr ydym yn eu defnyddio ar eu cyfer, megis lletya, storio data, a diogelwch. Gallwn hefyd rannu eich Data Personol fel fo angen i weithredu gwasanaethau SMG perthnasol eraill, megis gwefannau graddio ac adolygiadau a weithredwn.
- **Rhannu Data gyda Chleientiaid.** Os ydych chi'n cyrchu Gwasanaethau SMG i gwblhau Arolwg parthed eich profiad defnyddiwr gydag un o'n Cleientiaid, rydym yn rhannu'r Data Personol a gasglwn gennych ynghylch ac yn gysylltiedig â'ch ymatebion Arolwg gyda'r Cleient hwnnw. Gallwn hefyd ddefnyddio'r Data Personol hwn i darddu sylwadau ymchwil i'r farchnad ac i ddarparu dadansoddeg ymddygiad defnyddwyr a gwybodaeth busnes i'n Cleientiaid. Am wybodaeth parthed sut mae'r Cleient yr ydym yn casglu eich Data Personol ar ei gyfer yn defnyddio, diogelu ac fel arall yn prosesu Data Personol, darllenwch bolisi preifatrwydd y Cleient hwnnw. Gallwn ni a'n Cleientiaid hefyd gyfuno gwahanol fathau o wybodaeth, yn cynnwys Data Personol a gasglwyd gennych chi neu amdanoch chi gennym ni, ein Cleient neu ffynonellau trydydd parti. Gall SMG ddefnyddio'r wybodaeth gyfunol i unrhyw ddibenion a ddisgrifir yn y Polisi Preifatrwydd hwn, a gall ein Cleientiaid ddefnyddio'r wybodaeth gyfunol i unrhyw ddibenion a ddisgrifir yn eu polisiau preifatrwydd nhw.
- **Cydymffurfio gyda Rhwymedigaethau Cyfreithiol a gorfodi Hawliau Cyfreithiol.** Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth a gasglwn gennych chi, yn ôl yr angen, i orfodi ein hawliau, diogelu ein heiddo neu ddiogelu hawliau, eiddo neu ddiogelwch eraill, neu fel fo angen i gefnogi swyddogaethau archwilio, cydymffurfio a llywodraethu corfforaethol allanol. Byddwn yn datgelu Data Personol y pennwn i fod yn angenrheidiol mewn ymateb i wyslythyr, gorchymyn rhwymol neu awdurdod diogelu data neu farnwr, proses gyfreithiol, cais llywodraethol neu unrhyw ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol arall, ym mhob achos gall hyn fod tu allan i'ch gwlad breswyllo. Gallwn hefyd rannu Data Personol fel fo'n ofynnol i fynd ar drywydd unioniadau sydd ar gael neu i gyfyngu ar y niwed a all godi i ni.
- **Trosglwyddo Data mewn perthynas â Newidiadau Corfforaethol.** Gallwn drosglwyddo data amdanoch chi, yn cynnwys Data Personol, mewn perthynas ag unrhyw aildrefnu, uno, gwerthiant, menter ar y cyd, neilltuad, trosglwyddiad, caffaeliad neu newid arall mewn perchnogaeth neu reolaeth o SMG neu unrhyw gwmni cysylltiedig gwirioneddol neu i ddod (ym mhob achos p'un ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol), yn cynnwys, heb gyfyngiad, mewn perthynas ag un rhyw fethdaliad neu achos tebyg. Bydd yn ofynnol i unrhyw endid y byddwn yn trosglwyddo Data Personol iddo eich darparu â hysbysiad o unrhyw ddibenion prosesu nad ydynt yn gydnaws gyda'r dibenion a sefydlir yn y Polisi Preifatrwydd hwn, yn ogystal ag unrhyw arferion preifatrwydd sy'n faterol wahanol i'r arferion a sefydlir yn y Polisi Preifatrwydd hwn. Ble fo'n ofynnol dan y gyfraith, bydd hefyd yn ofynnol i endid o'r fath gael eich cydsyniad.
- **Defnyddio eich Data Personol i Ddibenion Busnes Eraill.** Rydym hefyd yn defnyddio eich Data Personol i ddibenion busnes cyfreithlon eraill, megis datblygu cynnyrch a gwasanaeth a gweinyddu Gwasanaethau SMG.

6. CADW A GWAREDU AR DDATA PERSONOL

Byddwn yn cadw eich Data Personol yn ein cofnodion yn ddim hirach nag sydd angen i'r dibenion y'i casglwyd yn wreiddiol. Pan nad oes angen gwybodaeth o'r fath mwyach ar gyfer y dibenion y'i casglwyd yn wreiddiol, byddwn yn dileu eich holl Ddata Personol

electronig yn ddiogel, ac yn carpio unrhyw Ddata Personol copi caled yn ddiogel, ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

7. EICH HAWLIAU A DEWISIADAU PARTHED PROSESU DATA PERSONOL

Gallwch roi'r gorau i gymryd rhan mewn Arolygon ar unrhyw adeg trwy beidio â chyrchu Gwasanaethau SMG mwyach.

Os ydych chi'n byw mewn lleoliad gyda chyfreithiau neu reoliadau sy'n rhoi hawliau i chi i weithredoedd penodol parthed eich Data Personol, bydd gennych yr hawliau penodol wedi eu rhoi i chi dan gyfraith [neu gyfreithiau] neu reoliad [neu reoliadau] o'r fath, a allai gynnwys yr hawl i ofyn am fynediad i ac unioniad (*h.y.*, addasu neu ychwanegu at) neu ddileu eich Data Personol, yr hawl i drosglwyddo eich data (*h.y.*, cludadwyedd data), cyfyngu ar brosesu eich Data Personol, yn ogystal â'r hawl i wrthwynebu i brosesu eich Data Personol, yr hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl, yr hawl i ganslo eich cyfrif, a'r hawl i gyflwyno cwyn gydag awdurdod goruchwylio. Bydd pob cais o'r fath yn cael ei drin yn unol â'r paramedrau a sefydlir mewn cyfreithiau a rheoliadau perthnasol.

Os ydych chi'n byw yn yr Undeb Ewropeaidd, mae gennych hawl dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol i ofyn i SMG am fynediad at ac unioniad neu ddileu eich data personol, cludadwyedd data, cyfyngu prosesu eich data personol, yr hawl i wrthwynebu i brosesu eich data personol, eich hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl, a'r hawl i gyflwyno cwyn gydag awdurdodau goruchwylio. Os ydych chi'n byw tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, efallai y bydd gennych hefyd hawliau gwrthrych data dan eich cyfreithiau lleol.

I wneud cais o'r fath, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data trwy e-bost ar privacyofficer@smg.com neu trwy ysgrifennu at Data Protection Officer, Service Management Group, LLC, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108.

8. GOBLYGIADAU PEIDIO DARPARU DATA PERSONOL

Er bod cymryd rhan yn ein Harolygon yn wirfoddol, ni allwch fod yn gymwys ar gyfer ysgogiadau, gwobrau neu fuddion penodol os nad ydych yn darparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol mewn Arolwg.

9. POLISI BRIWSION

9.1. Beth yw Briwsion

Mae SMG a'n darparwyr gwasanaethau yn defnyddio ffeiliau testun bychan a elwir yn friwsion. Mae "**briwsion**" yn ffeiliau cyfrifiadurol bychan a anfonir i neu a gyrchir o'ch porwr y we neu ddisg galed eich cyfrifiadurol, dyfais symudol neu dabled sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'ch cyfrifiadurol, fel enw defnyddiwr, gosodiadau defnyddiwr, hanes pori a gweithgareddau a gyflawnir tra'n defnyddio'r Gwasanaethau. Mae Briwsionyn fel arfer yn cynnwys yr enw parth (lleoliad rhyngwrwyd) y mae'r Briwsionyn yn tarddu ohono, "cyfnod oes" y Briwsionyn (*h.y.* pryd fydd yn dod i ben), a rhif neu ddynodwr unigryw a grëwyd ar hap. Gall Briwsion fod yn gysylltiedig i Ddata Personol.

9.2. Sut ydyn ni'n defnyddio Briwsion ac Offer Casglu Data

Mae Briwsion yn ein helpu i wella Gwasanaethau SMG trwy olrhain eich arferion llywio, ac addasu eich profiad gyda Gwasanaethau SMG. Mae hyn yn ein galluogi i ddadansoddi gwybodaeth dechnegol a llywio am Wasanaethau SMG ac yn ein helpu i ganfod ac atal twyll.

Rydym hefyd yn defnyddio Briwsion ac Offer Casglu Data eraill (megis tywyswyr gwe a chofnodion gweinydd), yr ydym yn cyfeirio atynt yn gyfunol fel “**Offer Casglu Data**,” i helpu gwella eich profiad gyda Gwasanaethau SMG – er enghraifft, trwy gofio pwy ydych tro nesaf y byddwch yn dod i ymweld â ni, a gwneud y cydsyniad a welwch yn fwy perthnasol i chi.

Gall Gwasanaethau SMG hefyd ddefnyddio'r Offer Casglu Data i gasglu gwybodaeth o'r ddyfais a ddefnyddiwyd i gyrchu Gwasanaethau SMG, fel eich math o system weithredu, math o borwr, parth a gosodiadau system eraill, yn ogystal â'r iaith mae'ch system yn ddefnyddio a'r wlad a pharth amser ble mae'ch dyfais wedi ei leoli.

9.3. Eich Rheolaeth o Friwsion

Mae porwyr y we yn gadael i chi gael rhywfaint o reolaeth o'r rhan fwyaf o Friwsion trwy osodiadau'r porwr. Mae rhai porwyr (yn cynnwys porwyr y we symudol) yn darparu gosodiadau sy'n caniatáu i chi wrthod Briwsion neu i'ch hysbysu pan osodir Briwsionyn ar eich cyfrifiadur, tabled neu ddyfais symudol. Efallai y byddwch yn gallu gwrthod dynodwyr dyfais symudol trwy ysgogi'r gosodiad priodol ar eich dyfais symudol. Er nad yw'n ofynnol i chi dderbyn Briwsion SMG na dynodwyr dyfeisiau symudol, os byddwch yn eu rhwystro neu wrthod, efallai na fydd gennych fynediad at yr holl nodweddion sydd ar gael trwy Wasanaethau SMG. Yn ogystal, os ydych chi'n byw mewn awdurdodaeth ble mae'n ofynnol i ni gael eich caniatâd i ddefnyddio briwsion ar ein gwefannau ac/neu raglenni, bydd cyfle i chi reoli eich dewisiadau briwsion ar y gwefannau ac/neu raglenni hynny; ac eithrio ble mae rhai briwsion yn ofynnol i alluogi gweithrediad craidd gwefannau a rhaglenni o'r fath ac nad ydych yn gallu dewis analluogi'r briwsion hyn.

10. RHEOLI GWYBODAETH EICH CYFRIF

Gallwch ymweld ag adran cyfrif y Gwasanaethau SMG perthnasol i reoli a chywiro gwallau ffeithiol yn yr wybodaeth sydd gennym amdanoch. Os oes gennych gwestiynau ynghylch sut i gyrchu neu gywiro eich Data Personol, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data trwy e-bost ar privacyofficer@smg.com neu trwy ysgrifennu at Data Protection Officer, Service Management Group, LLC, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108.

11. PREIFATRUYDD PLANT

Mae Gwasanaethau SMG wedi eu bwriadu ar gyfer cynulleidfaoedd cyffredinol ac nid ydynt wedi eu cyfeirio tuag at blant sydd dan oed ble gallant ddarparu cydsyniad i brosesu eu Data Personol dan unrhyw awdurdodaeth ble rydym yn gweithredu. Nid ydym yn casglu Data Personol yn fwriadol gan unrhyw bersonau o'r fath. Os ydych yn ymwybodol fod plentyn dan oed ble gall ddarparu cydsyniad cyfreithiol i brosesu eu Ddata/Ei Data Personol wedi darparu Data Personol i ni heb gydsyniad rhieniol, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data trwy e-bost ar privacyofficer@smg.com neu trwy ysgrifennu at Data Protection Officer, Service Management Group, LLC, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108. Os byddwn yn dod yn ymwybodol bod plentyn dan oed ble gall ddarparu cydsyniad i brosesu Data Personol yn ei awdurdodaeth neu ei hawdurdodaeth wedi darparu Data Personol i ni heb gydsyniad rhieniol, byddwn yn cymryd camau i ddileu gwybodaeth o'r fath a therfynu cyfrif y plentyn cyn gynted â phosibl.

12. DOLENNI I WASANAETHAU TRYDYDD PARTI

Gall Gwasanaethau SMG gynnwys dolenni i wefannau a gwasanaethau trydydd parti (“**Gwasanaethau Trydydd Parti**”) nad oes gan SMG unrhyw gyswllt â nhw. Nid yw dolen i Wasanaeth Trydydd Parti yn golygu ein bod yn ei ardystio nac ansawdd na chywirdeb yr wybodaeth a gyflwynir arno. Os byddwch yn penderfynu ymweld â Gwasanaeth Trydydd

Parti, rydych chi'n destun ei arferion preifatrwydd ac nid yr arferion preifatrwydd a gyflwynir yn y Polisi Preifatrwydd hwn.

13. DIOGELWCH GWYBODAETH

Mae gan SMG raglen diogelwch gwybodaeth sy'n gweithredu mesurau technegol, corfforol a sefydliadol a gynlluniwyd i gynnal diogelwch a chyfrinachedd Data Personol; diogelu yn erbyn bygythiadau a ragwelir i gyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd Data Personol; a diogelu eich Data Personol yn erbyn colled, camddefnydd, addasiad neu ddinistrio heb awdurdod, a mynediad neu ddatgeliad heb awdurdod.

Fodd bynnag, ble bynnag y bydd Data Personol yn cael ei brosesu, mae yna risg y gellid colli, camddefnyddio, addasu, hacio, bylchu ac/neu gael mynediad fel arall at ddata o'r fath gan drydydd parti heb awdurdod. Nid oes yr un system na throsglwyddiad ar-lein o ddata yn gyfan gwbl ddiogel. Yn ogystal â'r mesurau technegol, corfforol a sefydliadol sydd gan SMG ar waith i ddiogelu eich Data Personol, dylech ddefnyddio mesurau diogelwch priodol i ddiogelu eich Data Personol. Os ydych chi'n amau fod eich cyfrif SMG neu unrhyw wybodaeth a ddarparoch i ni ddim yn ddiogel mwyach, hysbyswch ein Swyddog Diogelu Data ar unwaith trwy e-bost ar privacyofficer@smg.com neu trwy ffonio 1-800-764-0439 a gofyn i siarad gyda Swyddog Diogelu Data SMG.

14. YSTYRIAETHAU DAEARYDDOL A THROSGLWYDDIADAU AR DRAWS FFINIAU O DDATA PERSONOL

Mae SMG yn rheoli a gweithredu Gwasanaethau SMG o Unol Daleithiau America. Gall SMG drosglwyddo, storio a phrosesu eich Data Personol yn yr Unol Daleithiau, y Deyrnas Unedig, Japan, neu unrhyw leoliad arall yn Asia neu'r Undeb Ewropeaidd. Sylwer na fydd cyfreithiau diogelu data a phreifatrwydd y wlad mae'ch Data Personol yn cael ei drosglwyddo iddo mor gynhwysfawr â'r cyfreithiau yn eich gwlad chi. Er enghraifft, gall Data Personol a drosglwyddir i'r Unol Daleithiau fod yn destun ceisiadau mynediad cyfreithlon gan awdurdodau ffederal a thaleithiol yn yr Unol Daleithiau.

Gwneir unrhyw drosglwyddiadau o Ddata Personol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("AEE") i'r Unol Daleithiau yn unol â Tharian Preifatrwydd EU-US. Mae SMG yn cymryd rhan yn ac yn cydymffurfio gydag egwyddorion y Darian Preifatrwydd EU-U.S. parthed casglu, defnyddio, rhannu a chadw Data Personol o'r AEE, fel y disgrifir yn ein hardystiad Tarian Preifatrwydd EU-US. Gallwch weld rhestr y Darian Preifatrwydd [yma](#). Dysgwch fwy am y Darian Preifatrwydd [yma](#). Mae SMG yn destun trosolwg Comisiwn Masnach Ffederal yr Unol Daleithiau, a bydd yn parhau i fod yn gyfrifol am brosesu Data Personol mewn modd sy'n anghyson ag Egwyddorion y Darian Preifatrwydd gan drydydd partion y mae SMG wedi trosglwyddo data personol iddynt oni bai bod SMG yn profi nad yw'n gyfrifol mewn unrhyw fodd am y digwyddiad a arweiniodd ar y niwed. Bydd unrhyw a phob trosglwyddiad o Ddata Personol tu allan i'r AEE yn unol â'r Polisi Preifatrwydd hwn a phob cyfraith berthnasol. Os ydych eisiau gwneud cwyn am ein cydymffurfiad Tarian Preifatrwydd, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data trwy e-bost ar privacyofficer@smg.com neu trwy ysgrifennu at Data Protection Officer, Service Management Group, LLC, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108. Gallwch hefyd gyfeirio cwyn, yn rhad ac am ddim, at ein corff datrys anghydfod annibynnol dethol, American Arbitration Association, ac mewn rhai amgylchiadau gallwch alw am y broses cyflafareddu Tarian Preifatrwydd.

Y Polisi Preifatrwydd Saesneg yw datganiad swyddogol SMG o'i arferion preifatrwydd parthed Gwasanaethau SMG. Yn achos unrhyw anghysondeb rhwng y Polisi Preifatrwydd Saesneg ac unrhyw gyfieithiad i iaith arall, y ddogfen Saesneg sy'n drech.

Gallwch hefyd gyfeirio cwyn, yn rhad ac am ddim, i'n corff datrys anghydfodau annibynnol, sef Cymdeithas Arbitration America (<http://go.adr.org/privacyshield.html>), ac mewn rhai amgylchiadau, yn galw ar y broses gyflafareddu Shield Preifatrwydd.

15. SUT I GYSYLLTU Â NI

Os oes gennych gwestiynau ynghylch preifatrwydd, neu os ydych chi angen cymorth i gyrchu neu ddiweddarau eich Data Personol neu os oes gennych gwynion ynghylch prosesu eich Data Personol, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data trwy e-bost ar privacyofficer@smg.com.

Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn:

Service Management Group, LLC
Attn: Data Protection Officer
1737 McGee Street
Kansas City, MO 64108

Service Management Group, Ltd.
Attn: Data Protection Officer
38-40 The Maltings
St Albans
Swydd Hertford AL1 3HL
Y DEYRNAS UNEDIG

Service Management Group G.K.
Attn: Data Protection Officer
2-7-16 No. 3 Komoriya Building 9F
Hamamatsu-cho, Minato-ku
Tokyo 1050013, Japan

16. RHEOLYDD DATA A SWYDDOG DIOGELU DATA

Mae Data Personol a gesglir gan SMG yn cael ei reoli gan Service Management Group, LLC, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108. Gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data trwy e-bost a privacyofficer@smg.com neu trwy ysgrifennu at Data Protection Officer, Service Management Group, LLC, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108.